

NEBOSH Rhithwir Ar-lein - Tystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol



Yn gwyno

Mae Tystysgrif Amgylcheddol NEBOSH yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ymgeiswyr ddangos rhagoriaeth amgylcheddol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae hyn yn hanfodol i sefydliadau sy'n dymuno osgoi erlyniad, ymglyfreithiad, a cholli enw da.

Mae sefydliadau â gweithwyr sydd wedi pasio Tystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol NEBOSH mewn sefyllfa dda i gyflwyno a chynnal safon rheoli amgylcheddol ISO 14001.

Yn ôl NEBOSH, mae tua dwy ran o dair o ymarferwyr iechyd a diogelwch bellach yn ymdrin â rheolaeth amgylcheddol fel rhan o'u cyfrifoldebau cyffredinol o ddydd i ddydd yn y gwaith. O ganlyniad, mae'r wybodaeth a gafwyd gan Dystysgrif NEBOSH mewn Rheolaeth Amgylcheddol yn hanfodol i lawer o weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol (yn amodol ar gymhwysedd).

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un 19 oed a hyn, sy'n byw yng Nghymru, ac mewn cyflogaeth Nid yw'r terfyn cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

... unrhyw un sydd angen dealltwriaeth gadarn o egwyddorion rheolaeth amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno dechrau neu ddatblygu eu gyrfa yn y sector hwn.

Cynnwys y cwrs

Mae Tystysgrif NEBOSH mewn Rheolaeth Amgylcheddol yn benllanw ymchwil helaeth gyda gweithwyr proffesiynol amgylcheddol, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y cwrs yn drylwyr ac yn berthnasol, ond hefyd yn gyraeddadwy ac ymarferol.

Deilliannau Dysgu:

Deall amrywiaeth o faterion amgylcheddol fel y gallwch wella perfformiad amgylcheddol a lleihau newid

Gweithio o fewn system reoli amgylcheddol a chyfrannu at welliant parhaus

Cydnabod agweddau amgylcheddol ac effeithiau cysylltiedig, a gwerthuso effeithiolrwydd rheolaethau presennol

Cefnogi penderfyniadau gyda dadleuon moesegol, cyfreithiol ac ariannol

Deall y cysylltiadau rhwng gweithgareddau eich sefydliad a materion amgylcheddol ehangach

Maes Llafur:

Uned EMC1 - Rheolaeth Amgylcheddol

Uned EMC2 - Asesu agweddau amgylcheddol ac effeithiau cysylltiedig

Asesir Tystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol NEBOSH mewn dwy ran:

Ar gyfer UNED EMC1, asesir ymgeiswyr drwy arholiad ysgrifenedig (i'w lawrlwytho, ei gwblhau a'i gyflwyno o fewn 24 awr), lle mae'n rhaid iddynt ddangos eu gwybodaeth a enillwyd drwy'r cwrs.

Mae Uned EMC2 yn asesiad ymarferol, a gynhelir yng ngweithle'r ymgeisydd. Rhaid cyflwyno'r asesiad ymarferol o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad arholiad a archebwyd.

Rhoddir tystysgrif uned yn dynodi cyflawniad pob uned.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rhoddir memrwn dyfarnu'r dystysgrif ar ôl cwblhau'r ddwy uned.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol, fodd bynnag mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall Saesneg at safon briodol er mwyn deall a chyfleu'r cysyniadau a gynhwysir yn y maes llafur.

Gwybodaeth Ychwanegol

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chysiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 5 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Sylwch y cynhelir Arholiadau NEBOSH ar ddyddiadau penodol yn unig drwy gydol y flwyddyn.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

